Mae criw bychan o aelodau etholedig y Cyngor wedi penderfynu cynnal ymchwiliad craffu i weithrediad y Polisi Iaith yn ysgolion Gwynedd.

Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar 3 dalgylch yn benodol, sef Bangor, Botwnnog ac Ardudwy, gan edrych ar y sector cynradd ac uwchradd.

Bydd yr ymchwiliad yn:

i. manylu ar weithrediad Polisi Iaith yr Awdurdod yn ysgolion cynradd ac uwchradd dalgylchoedd penodol.

ii. gweld sut y cymhwysir elfennau allweddol y polisi ym mholisïau'r gwahanol ysgolion ac yn arbennig o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol.

iii. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg"* ymhob ysgol.

iv. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd*"

Mae'r aelodau wedi cynnal cyfweliadau gyda phenaethiaid cynradd ac uwchradd y 3 dalgylch, a staff y Canolfannau Iaith a Chyd-gysylltwyr Iaith dalgylchol.

Yn dilyn derbyn sylwadau gan rhai o benaethiaid yr ysgolion am safon Cymraeg athrawon newydd penderfynwyd gwneud trefniadau i holi darlithwyr Prifysgol Bangor.

Mae'r aelodau etholedig eisiau deall cynnwys y modiwlau i ddarpar athrawon a'u haddasrwydd o ystyried Polisi Iaith Gwynedd.

1. Beth yw'r gofynion mynediad o ran safon iaith Gymraeg yr ymgeiswyr ar y cyrsiau sydd yn arwain at statws Athro Cymwysedig a'r Tystysgrif Addysg i Raddedigion?

2. Ydi'r gofynion mynediad o ran yr iaith Gymraeg ar yr un lefel a'r iaith Saesneg?

3. Wnewch chi egluro wrthym beth yw'r ddarpariaeth a sut mae'n cyd-fynd ac yn ategu polisi iaith Gwynedd.

4. Pwy sydd yn gyfrifol am hysbysu darpar athrawon o'r ymddygiad ieithyddol disgwyliedig yn ysgolion Gwynedd?

5. A oes cefnogaeth ar gael i fyfyrwyr wella eu sgiliau ieithyddol e.e. cyrsiau gloywi iaith?

6. Beth yn eich tyb chi yw'r ffactorau sydd yn gyfrifol am sylwadau rhai penaethiaid ynglŷn â safon iaith athrawon newydd?

7. A oes modiwlau penodol fel rhan o’r cyrsiau i ddarpar athrawon yn ymwneud â:
   i.) hyrwyddo defnydd anffurfiol o’r Gymraeg
   ii.) manteision dwyieithrwydd
   iii.) sut mae plant yn caffael iaith.